# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 7 Gorffennaf 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lynne Neagle (Tor-faen);** Beth oedd yr amserau aros i weld therapyddion iaith a lleferydd plant ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ26901)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i'r Cynulliad ar hynt adolygiad y Grwp Gweithredu Therapi Iaith a Lleferydd o wasanaethau iaith a lleferydd i blant. (WAQ26902)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w hadran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26908)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w hadran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26904)

**NDM1195 John Marek (Wrecsam);** Pryd allaf ddisgwyl yr atebion gan Brif Weithredwr ELWa yr addawodd imi yn ei hatebion i WAQ26041, WAQ26042, WAQ26268 & WAQ26269 . (WAQ26919)

**John Marek (Wrecsam);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddigolledu Sefydliadau Addysg Uwch a fu gynt o dan yr AALlau, am y cynnydd dros y 12 mis diwethaf yng nghost pensiynau ac a fydd y Sefydliadau Addysg Uwch hyn yn cael eu digolledu ar yr un raddfa â sefydliadau Addysg Bellach eraill. (WAQ26920)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w adran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26905)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gynnal arolwg o hygyrchedd gorsafoedd y Canolbarth ac archwiliad o'r cyfleusterau arnynt, hynny er mwyn datblygu strategaeth wedi'i blaenoriaethu i wella gorsafoedd. (WAQ26910)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i wella Lein y Cambrian. (WAQ26911)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ddadansoddiad sydd wedi'i wneud o'r potensial i wella ac ehangu gwasanaethau'r rheilffyrdd yn y Canolbarth. (WAQ26912)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynghylch gwneud yr A44 yn gefnffordd. (WAQ26913)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i glustnodi a chynnal rhaglen o welliannau ar hyd yr A40 o Aberystwyth i Langurig. (WAQ26914)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd i wella dolen De-Gogledd yr A487 o harbwr Abergwaun i Ddolgellau trwy Aberteifi. (WAQ26915)

**Lynne Neagle (Tor-faen);** Yn dilyn yr ateb a roddwyd i WAQ21078, a all y Gweinidog ddweud faint o arian y rhaglen Amcan Un, fesul y pen o'r boblogaeth, y mae'r De-ddwyrain, y Gogledd a'r Gorllewin wedi'i dderbyn. (WAQ26916)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w adran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26906)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o ffermwyr defaid sydd wedi ymuno â WEGS II hyd yma. (WAQ26918)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Beth mae adran y Gweinidog wedi'i wneud i fesur ôl troed ecolegol Cymru. (WAQ26917)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w hadran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26907)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w hadran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26909)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Faint o aelodau'r Cyrff Cyhoedus a Noddir gan y Cynulliad sy'n atebol i'w adran sy'n byw yn etholaeth y Rhondda. (WAQ26903)

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** Sut a phryd bydd y Gweinidog yn ymgynghori ar swyddogaeth a strwythur y Fforwm Iaith a argymhellir yn Iaith Pawb. (WAQ26921)

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** Pryd mae'n disgwyl y daw'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf ar Iaith Pawb ger bron pwyllgor Diwylliant y Cynulliad. (WAQ26922)

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** Pryd bydd y canllawiau ar brif ffrydio'r Gymraeg yng ngwaith y Cynulliad yn barod a phwy fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn. (WAQ26923)

**Leanne Wood (Canol De Cymru);** A yw Uned Iaith Gymraeg y Cynulliad wedi'i sefydlu ac os ydyw, faint o staff sy'n gweithio iddi, beth yw eu dyletswyddau/cyfrifoldebau a phwy sy'n gyfrifol am waith yr Uned. (WAQ26924)